Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# CYNLLUN YMWELWYR ANNIBYNNOL Â’R DDALFA

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## EBRILL 2019 – MAWRTH 2020

## Cynnwys

1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ............ 3
2. Cyflwyniad ............ 4
3. Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ............ 4
4. Rotâu Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ............ 5
5. Data Ymweld ............ 7
I. Nifer yr ymweliadau ............ 7
II. Nifer y carcharorion ............ 7
III. Amseru ymweliadau ............ 9
6. Materion a Godir ............ 10
7. Cyfarfodydd Panel ............ 12
8. Hyfforddiant a Digwyddiadau ............ 13
9. Rhan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa mewn hyfforddi Staff Dalfeydd 13
10. Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfa Annibynnol ............ 14
11. Fframwaith Sicrhau Ansawdd ............ 16
12. COVID-19 ............ 16
13. Marwolaethau yn y Ddalfa ............ 17
14. Cynlluniau'r Dyfodol ............ 17
15. Diddordeb mewn dod yn Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa? ............ 18
Atodiad A: ............ 19
Atodiad B ............ 20


## 1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys



Deilliodd Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd o adroddiad yr Arglwydd Scarman ar Derfysg Brixton ym 1981, a oedd yn argymell system annibynnol ddirybudd i arolygu gweithdrefnau a charcharu mewn gorsafoedd heddlu, gan aelodau o'r gymuned leol. Ffurfiolwyd hyn yn 2002 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu sy'n gosod dyletswydd statudol ar bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu i weithredu Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd.
Sefydlwyd Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn Nyfed-Powys yn 2001. Ers ei gyflwyno, mae miloedd o ymweliadau wedi'u cynnal mewn dalfeydd ledled ardal Dyfed-Powys, gan sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth pa beth bynnag yw'r rheswm y maent yn cael eu cadw.

Mae ymweld â dalfeydd wedi cyflwyno tryloywder o ran prosesau dalfeydd yr heddlu. Mae gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa rôl hollbwysig o ran sicrhau bod Hawliau Dynol carcharorion yn cael eu cynnal a bod Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn cael ei dilyn.

Bu'n flwyddyn brysur i'm Hymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, gyda fy nghynllun yn cymryd rhan yn y Cynllun Peilot Arsylwyr Annibynnol Cenedlaethol ac yn derbyn y dyfarniad safon Aur yn Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Ni ellir cyflawni hyn heb ymrwymiad pob ymwelydd gwirfoddol a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth, brwdfrydedd a hyblygrwydd. Mae'r ymrwymiad parhaus a ddangosir gan bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant y Cynllun, a hoffwn gynnig fy niolch personol i bob un ohonynt.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys


## 2. Cyflwyniad

Gwirfoddolwyr o'n cymuned leol yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu mewn parau, yn ddirybudd, er mwyn gwirio ar les carcharorion a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd yn gwirio ar amgylchedd dalfeydd i sicrhau eu bod nhw'n ddiogel ac o safon dda. Os oes unrhyw bryderon yn cael eu nodi, mae'r rhain yn cael eu codi gan yr ymwelwyr â Rhingyll y Ddalfa i gychwyn, a hefyd trwy swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn trafod ag Arolygwyr yr Heddlu. Yna, mae diweddariadau'n cael eu rhoi i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) i'w hystyried. Mae unrhyw themâu trosfwaol yn cael eu bwydo i'r Bwrdd Plismona ar gyfer ystyriaeth bellach, a chymerir camau gweithredu pellach os yn briodol. Mae rôl Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cynnig diogelwch i'r carcharorion a thryloywder o ran prosesau cadw.

## 3. Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Ddiwedd Mawrth 2020, roedd 27 Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa'n rhan o'r Cynllun. Maen nhw wedi'u rhannu ar draws y 4 ardal Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa; Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro.

Ffigwr 1: Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ym mhob Ardal Panel





Yn drist, bu farw un Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa fis Mawrth 2020. Yn ogystal, ymddiswyddodd dau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Ymunodd 5 Aelod Annibynnol â'r Ddalfa newydd â'r

rota Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod y cyfnod hwn. Cwblhaodd dau Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa eu cyfnod prawf fis Medi 2019, a bydd y tri sy'n weddill yn derbyn adolygiad fis Mehefin 2020 ar ôl cwblhau eu cyfnod prawf 6 mis.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y Cynllun yn cynrychioli demograffeg Dyfed-Powys, ond yn hollbwysig, gwirfoddolwyr sy'n medru rhoi amser ac ymrwymiad i'r cynllun sy'n cael eu penodi i'r Tîm. Fodd bynnag, o fewn ein hymgyrch recriwtio diwethaf, gwnaed pob ymdrech i recriwtio unigolion o bob oed, sydd wedi arwain at rywfaint o welliant ar drosolwg y llynedd.

Ffigwr 2: Rhyw ac Oed Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

| Oed: | Canran |
|---|---|
| 18-24 | 15% |
| 25-34 | 0% |
| 35-44 | 4% |
| 45-54 | 4% |
| 55-64 | 22% |
| 65-74 | 33% |
| 75+ | 22% |




## 4. Rotâu Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Rhydaman, Aberystwyth, Hwlffordd, Aberhonddu a'r Drenewydd yw'r prif ddalfeydd yn ardal Dyfed-Powys. Ymwelir â Rhydaman, Aberystwyth a Hwlffordd unwaith yr wythnos. Ymwelir ag Aberhonddu a'r Drenewydd unwaith y pythefnos. Mae hyn oherwydd yr amrywiaeth o ran maint a defnydd. Mae dwy ddalfa arall yn Nyfed-Powys, sef Aberteifi a Llanelli. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio pan fydd y dalfeydd eraill yn llawn, ac nid yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n ymweld â'r dalfeydd hyn fel mater o drefn. Fodd bynnag, os yw'r dalfeydd hyn yn cael eu defnyddio, rhoddir gwybod i SCHTh a gellir trefnu ymweliad gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa os oes angen.

| **Dalfa** | **Capasiti Celloedd ac ystafelloedd cadw (sy'n cael eu defnyddio er mwyn cadw plant)** | **Symudiadau drwy ddalfeydd**<br>01/04/2019 -31/03/2020 |
|---|---|---|
| Rhydaman | 6 cell<br>2 ystafell gadw | 2,251 carcharor |
| Hwlffordd | 17 cell<br><br>2 ystafell gadw | 1,798 carcharor |
| Aberystwyth | 7 cell<br><br>1 ystafell gadw ac 1 ystafell sych | 875 carcharor |
| Aberhonddu | 8 cell<br>1 ystafell gadw | 804 carcharor |
| Y Drenewydd | 9 cell<br><br>1 ystafell gadw | 734 carcharor |
| Llanelli<br>(Pan fydd dalfeydd eraill yn llawn yn unig) | 8 cell<br>2 ystafell gadw | 22 carcharor |
| Aberteifi<br>(Pan fydd dalfeydd eraill yn llawn yn unig) | 6 cell | 10 carcharor |

Rhoddir rota i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n pennu pâr o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i wythnos/pythefnos. Yna, maen nhw'n trefnu diwrnod ac amser yr ymweliad o fewn yr wythnos/pythefnos a nodwyd.

Yng nghyfarfodydd chwemisol y Panel Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa, rhoddir data ar eu hymweliadau diweddar i Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa, yn ogystal â’r proffil symudiadau drwy ddalfeydd. Gofynnir iddynt ystyried y data hwn wrth drefnu ymweliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal ar ddyddiau ac amserau amrywiol yn ystod yr wythnos.

Cafodd Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa gyfle i ymweld â dalfa mewn ardal Banel wahanol yn 2019/20. Mae hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu ar draws yr ardaloedd, ac mae hyn eisoes wedi arwain at faterion newydd yn dod i’r amlwg ar ymweliadau cyntaf Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa â dalfa wahanol. Bydd yr ymweliadau traws-Banel hyn dal yn cael eu cynnig cyn y cyhoeddir pob rota newydd.

## 5. Data Ymweld

### I. Nifer yr ymweliadau

Y nifer targed o ymweliadau’r flwyddyn yw 208 ar draws y 5 prif ddalfa: 52 yr un ar gyfer dalfeydd Rhydaman, Aberystwyth a Hwlffordd, a 26 yr un ar gyfer Aberhonddu a’r Drenewydd, sef cyfanswm o 208 ar gyfer yr ardal Heddlu.

Oherwydd COVID-19, penderfynwyd atal ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa o 18 Mawrth. Gan hynny, nid oedd modd i Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa gyflawni’r targed cychwynnol ar gyfer nifer yr ymweliadau (Gweler yr adran COVID-19 am rhagor o wybodaeth). Fodd bynnag, cwblhaodd Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa 163 ymweliad rhwng 1 Ebrill 2019 a 2 Mawrth 2020, sef 85% o’r targed diwygiedig ar gyfer nifer yr ymweliadau.

### II. Nifer y carcharorion

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, cafodd 5,955 o garcharorion eu dal yn nalfeydd Dyfed-Powys. O’r rhain, roedd 305 yn y ddalfa adeg ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa. Ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa â 48% o’r rhai a oedd yn bresennol (146).

| **Dalfa** | **Symudiadau drwy ddalfeydd rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020** |
|---|---|
| Rhydaman | 2,056 |
| Llanelli (Pan fydd dalfeydd eraill yn llawn yn unig) | 17 |
| Hwlffordd | 1,655 |
| Aberystwyth | 801 |
| Aberteifi (Pan fydd dalfeydd eraill yn llawn yn unig) | 8 |
| Aberhonddu | 740 |
| Y Drenewydd | 677 |


Ffigwr 4: Crynodeb o nifer y carcharorion yr ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa â nhw

| **Dalfa** | **Nifer yr ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa** | **Nifer y carcharorion yn y ddalfa adeg yr ymweliad** | **Carcharorion yr ymwelwyd â nhw** | **% y carcharorion yr ymwelwyd â nhw** | **Carcharorion yr Arsylwyd Arnynt** | **Carcharorion nas ymwelwyd â nhw** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhydaman | 30 | 86 | 45 | 52% | 21 | 20 |
| Hwlffordd | 45 | 125 | 67 | 54% | 31 | 27 |
| Aberystwyth | 41 | 54 | 22 | 41% | 8 | 24 |
| Aberhonddu | 20 | 17 | 9 | 53% | 5 | 3 |
| Y Drenewydd | 15 | 6 | 4 | 67% | 1 | 2 |


** Mae sawl rheswm pam nad yw carcharor yn derbyn ymweliad, er enghraifft, efallai bydd yr heddlu’n cynghori na ddylid ymweld â charcharor am resymau iechyd a diogelwch. Roedd y rhai nad oedd ar gael naill ai’n cael eu cyfweld, yn cysgu, neu’n darparu tystiolaeth DNA/olion bysedd.*

## III. Amseru ymweliadau

Ffigwr 5: Nifer yr ymweliadau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020




Ffigwr 6: Nifer yr ymweliadau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020




Mae ymweliadau canol wythnos dal wedi'u rhannu'n gyfartal, a dyna'r adeg mwyaf cyffredin o hyd ar gyfer ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Mae nifer yr ymweliadau a gynhelir ar benwythnosau'n sylweddol is.

Yn aml iawn, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cynnal ymweliadau rhwng 09:00 a 12:00. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cynnal ymweliadau yn ystod y bore fel arfer, sef y cyfnod prysuraf yn y ddalfa, gan uchafu'r siawns o weld cymaint o garcharorion â phosibl. Nid oes llawer o ymweliadau'n cael eu cynnal ar ôl 21:00 oherwydd mae carcharorion fel arfer yn cysgu, felly mae'n debygol y bydd llai o garcharorion ar gael i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa siarad â nhw yn ystod oriau hwyrach. Fodd bynnag, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ceisio cynnal ymweliadau yn ystod amserau amrywiol, gan

gynnwys penwythnosau yn ogystal â diwrnodau'r wythnos, er mwyn sicrhau na fydd modd darogan dyddiau ac amserau eu hymweliadau.

## 6. Materion a Godir

Yn ystod eu hymweliadau, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n gwirio ar les carcharorion, yn ogystal â'r amodau y maent yn cael eu cadw. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n ymwybodol o'r hawliau sydd gan garcharorion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn unol â Chod C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad B.

Disgwylir i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafod unrhyw fân faterion lles neu amgylcheddol â Rhingyll y Ddalfa neu'r swyddog cysylltiedig adeg yr ymweliad.

Mae unrhyw faterion na ellir eu datrys yn ystod ymweliad, neu faterion y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n teimlo sydd angen eu trin ar lefel uwch, yn cael eu hadrodd wrth y gweinyddwr cynllun o fewn SCHTh.

Wedyn caiff y rhain eu cofnodi a'u dilyn gan Brif Arolygydd Dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys (HDP) neu'r Arolygwyr perthnasol. Yna, maent yn ystyried y materion, yn rhoi diweddariad/adroddiad i weinyddwr y cynllun, ac yn cymryd unrhyw gamau gweithredu gofynnol.

Mae sylwadau ac arsylwadau cadarnhaol hefyd yn cael eu nodi ar y ffurflenni a'u hadrodd yn ôl wrth aelodau staff uwch y ddalfa.

Mae gweinyddwr y cynllun yn rhoi gwybod i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am ganlyniad eu hadroddiad, a chynhelir trafodaethau pellach o gwmpas y mater yng nghyfarfod nesaf y Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Pe bai angen ystyried unrhyw faterion ar lefel uwch, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cyflwyno'r mater mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona er mwyn ei drafod â'r Prif Gwnstabl.

Isod, gweler rhestr o bryderon a fynegwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac ymateb sy'n sôn am gynnydd yn erbyn pob pryder:

| Pryder a nodwyd | Cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Pryder am yr amser y mae carcharor mewnfudo'n treulio yn y ddalfa. Mae angen cynrychiolwyr o'r Asiantaeth Fewnfudo er mwyn cyflymu'r broses. | Yn parhau: Roedd y ddalfa'n ymwybodol o'r pryder hwn, a bydd yn parhau i fonitro unrhyw oedi yn y dyfodol. |
| Mannau dall yn system TCC Aberhonddu. | Yn parhau: Trefnwyd bod gwaith yn cael ei gwblhau eleni, ond oherwydd COVID-19, mae hyn wedi'i ohirio. Fodd bynnag, bydd gwaith yn ailgychwyn pan yn briodol. |
| Amseriadau TCC yn anghywir yn Aberystwyth. | Datryswyd: Diwygiwyd amseriadau'r TCC ac maent yn awr yn gywir. |
| Dim thermomedr yn yr ystafell paratoi bwyd yn Rhydaman. | Datryswyd: Thermomedr newydd wedi'i archebu. |
| Pryder ynglŷn â'r cofnodion tymheredd bwyd yn Hwlffordd. | Datryswyd: Crëwyd taflenni cofnodi tymheredd newydd er mwyn sicrhau bod 'cofnodion dim' hefyd yn cael eu cipio er mwyn sicrhau na welir unrhyw fylchau o ddydd i ddydd. |
| Dillad carcharorion yn cael eu cadw ar y llawr tu allan i'r celloedd oherwydd diffyg lle cadw yn Rhydaman. | Datryswyd: Ers i'r mater hwn gael ei godi, mae dillad carcharorion nawr yn cael eu cadw mewn bagiau unigol tu allan i'r celloedd. |
| Cau cell yn Aberystwyth oherwydd golau diffygiol. | Datryswyd: Roedd hon yn broblem barhaus oherwydd bod angen cau'r ddalfa er mwyn newid y switsfwrdd golau. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys erbyn hyn. |
| Mae angen rhoi sylw i'r gât yn iard gerbydau Aberystwyth. | Yn parhau: Adroddwyd am y mater wrth yr Adran Ystadau, ac mae'r mater wedi'i gynnwys yn eu cynlluniau gwaith. |

| | |
|---|---|
| Dim Beibl yn Rhydaman. | Datryswyd: Mae Beibl newydd wedi'i archebu. |
| Mynegwyd pryder ynglŷn â glendid a hygyrchedd yr ystafell doiled wydr yn Rhydaman. | Datryswyd: Adroddwyd am y mater hwn wrth y ddalfa a gwnaed gwelliannau. Bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n parhau i fonitro hyn. |
| Craciau yn llawr y ddalfa yn Aberhonddu. | Yn parhau: Hysbyswyd y tîm ystadau am y pryder hwn, a bydd gwaith cynnal a chadw ar loriau'r ddalfa'n cael ei gynnal dros y flwyddyn i ddod. |
| Nododd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fod problem iechyd a diogelwch o ran y gris ar gyfer un o'r cawodydd yn nalfa Aberystwyth oherwydd ei ddyfnder a'i led. | Datryswyd: Yn dilyn y pryder hwn, nid yw'r gawod yn cael ei defnyddio bellach. Mae carcharorion yn defnyddio cawod arall yn y ddalfa yn awr. |

Mae nifer o sylwadau cadarnhaol wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n nodi'n aml o fewn eu canfyddiadau bod y ddalfa'n lân a thaclus a bod popeth mewn cyflwr da. Ar rai achlysuron, sylwodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa bod staff y ddalfa'n barod i helpu a chroesawu'r Ymwelwyr, yn ogystal â chynnal eu safonau glendid uchel, er eu bod yn brysur iawn. Drwy Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n ymweld â dalfeydd mewn ardaloedd eraill yn Nyfed-Powys, nodwyd nifer o feysydd arfer da, gan gynnwys arfer da yn Rhydaman o ran cynnyrch mislifol benywod yn cael ei ddarparu mewn pecynnau, eitemau crefyddol yn cael eu cadw yn Hwlffordd, a chofnodion tymheredd bwyd yn cael eu cadw ym Mhowys. Mae'r ymweliadau hyn wedi caniatáu i arfer da gael ei nodi a'i rannu.

## 7. Cyfarfodydd Panel

Cynhelir Cyfarfodydd y Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ddwywaith y flwyddyn ym mhob ardal. Yn y cyfarfodydd hyn, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cael cyfle i drafod unrhyw faterion sydd wedi'u codi â Rhingyll y Ddalfa. Mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain bod yr esboniadau a roddir yn ddigonol, a

bod y canlyniad yn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar les, hawliau dynol neu iechyd a diogelwch carcharor. Hefyd, mae’n gyfle i adlewyrchu ar y 6 mis diwethaf; sut mae’r Cynllun yn mynd rhagddo a pha un ai a gellid gwneud unrhyw welliannau.

## 8. Hyfforddiant a Digwyddiadau

- Trefnwyd diwrnod hyfforddi blynyddol ar gyfer 13 Mawrth 2020. Roedd cyflwyniadau yn ystod y diwrnod fod cynnwys cyflwyniad ar iechyd a diogelwch mewn dalfeydd, cynllun dargyfeiriol Dyfed-Powys, newidiadau i Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol mewn perthynas â benywod yn y ddalfa, a chyflwyniad ar y broses ar gyfer derbyn carcharorion. Yn anffodus, oherwydd yr amgylchiadau o ran COVID-19, gwnaed y penderfyniad anodd i ohirio’r digwyddiad hwn. Bydd y diwrnod hyfforddi hwn yn cael ei aildrefnu cyn gynted â phosibl.
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ym mis Hydref a mis Ionawr hefyd ar gyfer yr Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa hynny sy’n rhan o’r cynllun peilot adolygu cofnodion dalfa (gweler adran 10 isod) a’r newidiadau i ymweliadau sy’n cael eu treialu yn nalfa Hwlffordd.
- Ar 7 Tachwedd, aeth y Comisiynydd gydag Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa ar un o’u hymweliadau â dalfa’r Drenewydd.



- Ar 28 Chwefror, cynhaliodd y Comisiynydd brynhawn dathlu er mwyn diolch i’r holl Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa sy’n rhan o’r Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfa Annibynnol. Roedd hwn yn gyfle i’r Comisiynydd a’r dalfeydd ddiolch i Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa am eu parodrwydd i gymryd rhan ac am eu cyfraniadau, yn ogystal ag adlewyrchu ar y canfyddiadau yn ystod y cyfnod chwe mis o adolygu cofnodion.

## 9. Rhan Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa mewn hyfforddi Staff Dalfeydd

Mae Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa a’r Gweinyddwr Cynllun yn ymwneud yn arferol â hyfforddi staff dalfa newydd. Cynhaliwyd yr hyfforddiant diweddaraf ym mis Ionawr 2020. Mae’r cyfle hwn yn helpu i sicrhau bod yr holl aelodau staff dalfa newydd yn ymwybodol o Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa a’u rôl.

Hefyd, mae'n rhoi cyfle iddynt holi unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am y cynllun.

## 10. Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfa Annibynnol

Ym mis Medi 2019, roedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o bum heddlu yng Nghymru a Lloegr, a'r unig heddlu yng Nghymru, i gymryd rhan yn y Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfa Annibynnol.



Mae'r cynllun peilot 6 mis yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Mae'r cynllun yn anelu i amddiffyn lles y rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed ymhellach yn y ddalfa, gan gynnwys pobl ifainc. Mae'n galluogi Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i gynnal gwiriadau mwy manwl yn ystod eu hymweliadau. Ers mis Medi, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi cwrdd yn rheolaidd er mwyn adolygu cofnodion dalfa carcharorion bregus, gan roi cyfle iddynt ystyried taith gyfan carcharor drwy'r ddalfa, sy'n ein helpu i greu gwell dealltwriaeth o unrhyw broblemau lleol cyfredol.

Wrth adolygu'r cofnodion, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n adrodd ar amrediad o feini prawf, gan edrych a yw'r unigolion sy'n agored i niwed wedi'u cadw yn unol â'u hanghenion ac yn unol â rheoliadau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Mae hyn yn cynnwys gwirio pa un ai a ydynt wedi cael mynediad at Oedolyn Priodol (er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion bregus yn deall eu rhyddidau a'u hawliau ac yn cael mynediad at gymorth angenrheidiol), pa mor hir a gymerodd i wneud hyn, a pha un ai a roddwyd gwybodaeth iddynt am eu rhyddidau a'u hawliau. Mae hyn wedi helpu i nodi meysydd arfer da a meysydd ar gyfer gwella.

Yn ogystal ag adolygu cofnodion dalfa, roedd y cynllun peilot hefyd yn cynnwys rhai newidiadau i ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Lansiwyd ail gam y cynllun peilot ar 24 Ionawr 2020, ac mae'n cael ei dreialu yn nalfa Hwlffordd i gychwyn. Gyda chaniatâd y carcharorion, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n medru arsylwi ar rai o'r gweithdrefnau dalfa nad

oeddent yn eu hadolygu o'r blaen, megis y broses dderbyn a'r broses ryddhau. Mae'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n ateb amrediad o gwestiynau ar gofnodion dalfa a'u harsylwadau, megis sicrhau bod unigolion wedi cael gwybod am eu hawliau a'u rhyddidau a bod Oedolyn Priodol wedi'i alw os oedd angen. Mae'r gwiriadau ychwanegol hyn yn golygu bod mwy o'r ddalfa ar gael i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa adolygu, gan roi gwell mewnwelediad iddynt i'r holl ofal a estynnir i garcharorion bregus yn nalfeydd HDP.

Trosolwg o ganfyddiadau allweddol:



Adolygwyd 127 cofnod rhwng Medi 2019 a Chwefror 2020.

Meysydd Arfer Da:

- Canfu bod yr holl garcharorion yn cael gwybod am eu hawliau a'u rhyddidau (ym mhresenoldeb oedolyn priodol os oes angen).
- Yn gadarnhaol, roedd pob plentyn yn y ddalfa'n cael oedolyn priodol.
- Pennwyd swyddog benywaidd i bob plentyn benywaidd.
- Ni nodwyd unrhyw faterion o ran gofynion crefyddol neu ofynion dietegol nad oedd yn cael eu darparu ar eu cyfer.
- Glynwyd wrth yr holl lefelau arsylwi a osodwyd, gyda charcharorion yn cael eu hasesu ar gyfer risg yn barhaus. Nododd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa bod carcharorion yn derbyn gofal da, ac roedd sawl enghraifft o sefyllfaoedd anodd yn cael eu trin yn broffesiynol a gyda gofal.

Meysydd gwella a nodwyd:

- I ddechrau, nodwyd fod diffyg manylion yn cael eu cofnodi am ambell beth mewn cofnodion, gan arwain at Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n methu asesu'n gywir pa un ai a oedd rhai pethau'n digwydd, megis pa un ai a oedd carcharorion yn cael gwybod am y defnydd o gloch alw cell a bod yr ardal doiled yn cael ei phicseleiddio.

- Diffyg manylion yn cael eu cofnodi mewn perthynas ag oedolion benywaidd a pha un ai a oedd ganddynt fynediad at aelod staff benywaidd neu’n cael cynnig unrhyw gynnyrch mislifol.

Mae’n dda nodi fod yr Heddlu wedi ymateb yn gadarnhaol i’r canfyddiadau hyn drwy gyflwyno anogwyr i system y ddalfa mewn perthynas ag anghenion dietegol ac alergeddau bwyd; gofynion crefyddol tra yn y ddalfa; pa un ai a fydd angen unrhyw gynnyrch mislifol ar garcharorion benywaidd; ac esbonio cloch alw cell a phicseleiddio’r ardal doiled.

Ers i’r newidiadau hyn gael eu cyflwyno, nid yw Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa wedi llwyddo i gynnal adolygiad oherwydd COVID-19, fodd bynnag, mae Swyddfa’r Comisiynydd wedi nodi effaith gadarnhaol y newidiadau hyn drwy hap samplu cofnodion bob yn ail wythnos yn absenoldeb ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa.

## 11. Fframwaith Sicrhau Ansawdd




Cyflwynwyd Gwobrau Sicrhau Ansawdd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa mewn seremoni yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 15 Mai 2019. Roedd pedair lefel gwobr wedi’i graddio, ac roedd yn bleser gan Gynllun Heddlu Dyfed-Powys dderbyn y safon Aur, sy’n golygu bod y Cynllun yn darparu safon ardderchog o ran ymweld â dalfeydd a rheoli gwirfoddolwyr.

## 12. COVID-19

O ganlyniad i ddatblygiadau cyflym y pandemig coronafeirws tua diwedd y flwyddyn ariannol, penderfynodd Heddlu Dyfed-Powys atal pob ymweliad â safleoedd heddlu nad ydynt yn hanfodol er mwyn diogelu cadernid plismona yn Nyfed-Powys, yn arbennig gorsafoedd heddlu, sy’n safleoedd sensitif. Gan hynny, penderfynodd yr heddlu mai dim ond ymweliadau hanfodol â’r ddalfa y dylid eu cynnal er mwyn gwarchod staff y ddalfa ac amgylchedd y ddalfa. O ganlyniad i’r penderfyniad uchod gan yr heddlu, demograffeg ein hymwelwyr, ac mewn ymateb i nifer o geisiadau gan ein Hymwelwyr Annibynnol â’r Ddalfa i beidio ag ymweld â dalfeydd hyd nes y bydd y sefyllfa o ran yr haint coronafeirws

yn gwella, ar 18 Mawrth 2020, cytunodd SCHTh i atal holl ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa nes bydd hysbysiad pellach. Bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n rheolaidd, gyda'r nod o ailgychwyn ymweliadau cyn gynted ag sydd yn ymarferol bosibl.

Yn absenoldeb ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, mae aelodau o staff SCHTh wedi cymryd nifer o gamau er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth statudol y Comisiynydd o'r amgylchedd dalfeydd heddlu'n cael ei gynnal tra bod ymweliadau wedi'u hatal. Mae hyn yn cynnwys hap samplu cofnodion dalfa'n annibynnol bob yn ail wythnos er mwyn sicrhau bod lles carcharorion dal yn cael ei wirio, a'u bod yn derbyn eu holl hawliau a rhyddidau yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Yn ogystal, mae'r Gweinyddwr Cynllun yn bresennol o bell mewn cyfarfodydd cynlluniau wrth gefn dalfeydd ar eu hymateb i COVID-19, ac yn cydlynu ymateb i holiadur wythnosol gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar fynediad carcharorion at ofal iechyd ac Oedolion Priodol.

Mae SCHTh dal yn cadw golwg manwl ar ddata perfformiad Heddlu Dyfed-Powys, gan gynnwys nifer y troseddau, galwadau am wasanaeth a nifer y carcharorion sy'n mynd drwy'r ddalfa ar sail wythnosol. Mae hyn yn galluogi'r CHTh i ddeall y pwysau presennol ar yr Heddlu yn ogystal â sicrhau bod goruchwyliaeth yn gymesur a chefnogol.

## 13. Marwolaethau yn y Ddalfa

Yn drist, bu farw un person yn un o ddalfeydd Heddlu Dyfed-Powys ar 23 Tachwedd. Aeth carcharor gwrywaidd yn sâl pan oedd yn nalfa'r Drenewydd. Aed ag ef i'r ysbyty, ond yn anffodus, bu farw yno. Fel sy'n wir gydag unrhyw ddigwyddiad o'r math hwn, mae marwolaeth y dyn yn destun ymchwiliad ac mae'r mater wedi'i gyfeirio at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

## 14. Cynlluniau'r Dyfodol

Yn y flwyddyn i ddod, bydd SCHTh yn gweithio gyda'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a Heddlu Dyfed-Powys er

mwyn adolygu effaith y Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfa Annibynnol a sut y gellid gweithredu’r ymagwedd gyfan ar draws Heddlu Dyfed-Powys.

## 15. Diddordeb mewn dod yn Ymwelydd Annibynnol â’r Ddalfa?

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a dod yn Ymwelydd Annibynnol â’r Ddalfa yn ardal Dyfed-Powys, a hoffech gael rhagor o wybodaeth, galwch heibio i:
http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/cynlluniau-gwirfoddoli/ymwelwyr-annibynnol-ar-ddalfa/
Neu cysylltwch â Caryl Bond ar 01267 226097 neu drwy e-bost ar:
caryl.bond.opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

## Atodiad A:

| **Ceir crynodeb o hawl carcharor o dan God C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol isod. Darperir y wybodaeth hon i garcharorion yn yr orsaf heddlu. Ceir manylion llawn yng Nghod Ymarfer C yr Heddlu.** |
|---|
| **1**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi eisiau cyfreithiwr i'ch helpu pan fyddwch chi yn yr orsaf heddlu. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **2**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi eisiau bod rhywun yn cael gwybod ble rydych chi. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **3**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi eisiau edrych ar eu rheolau - gelwir y rhain yn Godau Ymarfer. |
| **4**. Dywedwch wrth yr heddlu os oes angen cymorth meddygol arnoch. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi'n teimlo'n sâl neu wedi'ch anafu. Nid oes tâl ar gyfer cymorth meddygol. |
| **5**. Os holir cwestiynau i chi am drosedd dybiedig, does dim rhaid i chi ddweud dim byd. Ond gall niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch chi'n sôn, wrth gael eich holi am rywbeth y byddwch chi'n dibynnu arno nes ymlaen yn y Llys. Gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth |
| **6**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych am y drosedd maen nhw'n credu'ch bod chi wedi'i chyflawni a pham rydych chi wedi'ch arestio ac yn cael eich cadw. |
| **7**. Rhaid i'r heddlu adael i chi neu'ch cyfreithiwr weld cofnodion a dogfennau am y rheswm rydych chi wedi'ch arestio ac yn cael eich cadw ac am eich amser yng ngorsaf yr heddlu. |
| **8**. Os oes angen cyfieithydd arnoch, rhaid i'r heddlu ddarparu un ar eich cyfer. Hefyd, cewch ddogfennau penodol wedi'u cyfieithu. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **9**. Dywedwch wrth yr heddlu os nad Prydeiniwr ydych ac rydych chi eisiau cysylltu â'ch llysgenhadaeth neu gonsyliaeth, neu os ydych eisiau iddynt gael gwybod eich bod chi'n cael eich cadw. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **10**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych am ba mor hir maen nhw'n medru'ch cadw. |
| **11**. Os ydych chi'n cael eich cyhuddo ac mae'ch achos yn mynd i'r llys, bydd gennych chi neu'ch cyfreithiwr hawl i weld tystiolaeth yr erlyniad cyn y gwrandawiad llys. |

## Atodiad B

| **Y gwiriadau amgylcheddol a gyflawnir gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wrth ymweld â Dalfa:** |
|---|
| - Gwirio bod y celloedd yn lân (celloedd gwag a chelloedd wedi'u meddiannu lle bo'n bosibl). |
| - Gwirio bod y gegin a'r ardal paratoi bwyd yn lân a thaclus. |
| - Gwirio bod pob ardal arall o fewn y ddalfa'n lân a thaclus. |
| - Gwirio bod y gwres, golau ac awyru'n ddigonol. |
| - Gwirio bod yr ystafell feddygol wedi'i chloi os nad oes gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol. |
| - Gwirio bod y pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd. |
| - Gwirio bod cyflenwad dillad gwely, siwtiau gwrth-rwyg a dillad sbâr digonol. |
| - Gwirio bod cyflenwadau bwyd digonol. |
| - Gwirio bod y ddalfa'n rhydd rhag unrhyw beryglon iechyd a diogelwch amlwg. |
| - Gwirio bod systemau TCC a'r swnyn yn y gell yn gweithio. |
| - Gwirio bod deunydd crefyddol ar gael yn hawdd i garcharorion. |
| - Gwirio nad oes mannau rhwymo sy'n cyflwyno perygl i garcharorion. |

| **Y gwiriadau lles a gyflawnir gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wrth ymweld â Dalfa:** |
|---|
| - Ydyn nhw'n cael eu trin yn rhesymol? |
| - Ydyn nhw wedi cael gwybod am eu hawliau cyfreithiol a'u hawliau o ran ymwelwyr? |
| - Ydyn nhw'n deall eu hawliau fel y maent wedi'u hesbonio wrthynt? |
| - A oes rhywun wedi cael gwybod am eu cadwad (os ydyn nhw wedi gofyn am hyn)? |
| - Ydyn nhw wedi gweld cyfreithiwr (os ydyn nhw wedi gofyn am hyn)? |
| - Ydyn nhw wedi cael/cael cynnig bwyd/diod? |
| - Ydyn nhw wedi gofyn am/derbyn sylw meddygol os oes ei angen? |
| - Ydyn nhw wedi cael mynediad i gyfleusterau toiled/glendid/ymolchi? |
| - A ddarparwyd dillad gwely ychwanegol/dillad amgen/blanced, os oes angen? |
| - A roddwyd cyfnodau gorffwys a/neu ymarfer, os yn briodol? |